



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2022 Rhif 804 (Cy. 180)

2022 No. 804 (W. 180)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

**EXITING THE EUROPEAN
UNION, WALES**

**IECHYD PLANHIGION,
CYMRU**

PLANT HEALTH, WALES

HADAU, CYMRU

SEEDS, WALES

Rheoliadau Iechyd Planhigion etc.
(Ffioedd) (Diwygio) (Cymru)
(Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2022

The Plant Health etc. (Fees)
(Amendment) (Wales) (EU Exit)
(No. 2) Regulations 2022

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 7(2) o Atodlen 4 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16). Maent yn diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/1179) (Cy. 238) ("Rheoliadau 2018").

These Regulations are made in exercise of the powers conferred by paragraph 7(2) of Schedule 4 and paragraph 21(b) of Schedule 7 to the European Union (Withdrawal) Act 2018 (c. 16). They amend the Plant Health etc. (Fees) (Wales) Regulations 2018 (S.I. 2018/1179) (W. 238) ("the 2018 Regulations").

Yn benodol, mae Rheoliadau 2018 wedi eu diwygio—

In particular, the 2018 Regulations are amended—

- (a) mewn perthynas â'r ffioedd sy'n daladwy gan fewnforiwr llwyth sy'n tarddu o drydedd wlad mewn cysylltiad â gwiriad ffisegol a gwiriad adnabod o blanhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill, er mwyn adlewyrchu pa mor aml y cynhelir gwiriadau ffisegol a gwiriadau adnabod o blanhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill o'r fath. Mae'r diwygiadau yn cynnwys darparu ar gyfer ffi unfurf mewn cysylltiad â phlanhigion penodol sydd i'w plannu a newidiadau i gategorïau planhigion, a chynhyrchion planhigion, penodol; a

- (a) in relation to the fees payable by an importer of a consignment originating in a third country in respect of a physical check and identity check of plants, plant products or other objects, to reflect the frequency rates of physical checks and identity checks of such plants, plant products and other objects. The amendments include providing for a flat rate fee in respect of certain plants for planting and changes to the categorisation of certain plants, and plant products; and

(b) er mwyn estyn yr esemptiad rhag talu ffioedd sy'n daladwy fel arall mewn cysylltiad â gwasanaethau tystysgrifau a chyn-allforio ar lwythi o dan amgylchiadau penodol hyd 31 Rhagfyr 2023.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

(b) to extend the exemption from the payment of fees otherwise payable in respect of certification and pre-export services on consignments in certain circumstances to 31 December 2023.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2022 Rhif 804 (Cy. 180)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

**IECHYD PLANHIGION,
CYMRU**

HADAU, CYMRU

Rheoliadau Iechyd Planhigion etc.
(Ffioedd) (Diwygio) (Cymru)
(Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2022

Gwnaed 13 Gorffennaf 2022
Yn dod i rym 22 Gorffennaf 2022

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 7(2) o Atodlen 4 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(1).

Gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad yn unol â pharagraff 1(8) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno(2).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2022 a deuant i rym ar 22 Gorffennaf 2022.

- (1) 2018 p. 16; gweler paragraff 8 o Atodlen 4 am ystyr "appropriate authority". Diwygiwyd paragraff 21 o Atodlen 7 gan adran 41(4) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1) a pharagraffau 38 a 53(2) o Atodlen 5 iddi.
- (2) Mae'r cyfeiriad yn Ndeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

2022 No. 804 (W. 180)

**EXITING THE EUROPEAN
UNION, WALES**

PLANT HEALTH, WALES

SEEDS, WALES

The Plant Health etc. (Fees)
(Amendment) (Wales) (EU Exit)
(No. 2) Regulations 2022

Made 13 July 2022
Coming into force 22 July 2022

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred by paragraph 7(2) of Schedule 4 and paragraph 21(b) of Schedule 7 to the European Union (Withdrawal) Act 2018(1).

A draft of this instrument has been laid before, and approved by a resolution of, Senedd Cymru in accordance with paragraph 1(8) of Schedule 7 to that Act(2).

Title and commencement

1. The title of these Regulations is the Plant Health etc. (Fees) (Amendment) (Wales) (EU Exit) (No. 2) Regulations 2022 and they come into force on 22 July 2022.

- (1) 2018 c. 16; see paragraph 8 of Schedule 4 for the meaning of "appropriate authority". Paragraph 21 of Schedule 7 was amended by section 41(4) of, and paragraphs 38 and 53(2) of Schedule 5 to, the European Union (Withdrawal Agreement) Act 2020 (c. 1).
- (2) The reference in the European Union (Withdrawal) Act 2018 to the National Assembly for Wales now has effect as a reference to Senedd Cymru by virtue of section 150A(2) of the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

Diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018

2.—(1) Mae Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3 (ffioedd arolygu mewnforio)—

(a) ym mharagraff (1)—

- (i) yn lle'r geiriau “a ddisgrifir yn” rhodder “sy'n dod o fewn”;
- (ii) hepgorer y geiriau o “neu unrhyw beiriannau” hyd at y diwedd;

(b) yn lle paragraff (2A) rhodder—

“(2A) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2B), (2C) a (2E), y ffioedd sy'n daladwy gan fewnforiwr llwyth o drydedd wlad mewn cysylltiad ag atebolrwydd am wiriad ffisegol a gwiriad adnabod y caniateir eu cynnal ar y llwyth (pa un a gynhelir unrhyw wiriad o'r fath ai peidio) yw, pan fo llwyth yn cynnwys planhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 1 o'r tabl, sy'n tarddu o wlad a bennir yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2 o'r tabl—

- (a) y ffi a bennir yng ngholofn 3 o'r tabl mewn cysylltiad â gwiriad ffisegol o blanhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill o bob disgrifiad o'r fath a geir yn y llwyth; a
- (b) y ffi a bennir yng ngholofn 4 o'r tabl mewn cysylltiad â gwiriad adnabod o blanhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill o bob disgrifiad o'r fath a geir yn y llwyth.”;

(c) yn lle paragraff (2B) rhodder—

“(2B) Mae'r ffioedd a bennir o dan baragraff (2A) mewn cysylltiad ag atebolrwydd i gynnal gwiriad ffisegol a gwiriad adnabod o flodau wedi eu torri, ffrwythau, llysiau neu ddail yn daladwy mewn cysylltiad ag un lot o'r math o dan sylw.”;

(d) yn lle paragraff (2C) rhodder—

“(2C) Pan fo llwyth yn cynnwys dau neu ragor o blanhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill sy'n dod o fewn un categori a bennir yng ngholofn 1 o'r tabl, y ffi sy'n daladwy o dan baragraff (2A) mewn cysylltiad ag atebolrwydd i gynnal gwiriad ffisegol neu wiriad adnabod o'r planhigion, y cynhyrchion

Amendment of the Plant Health etc. (Fees) (Wales) Regulations 2018

2.—(1) The Plant Health etc. (Fees) (Wales) Regulations 2018(1) are amended as follows.

(2) In regulation 3 (import inspection fees)—

(a) in paragraph (1)—

- (i) for the words “are described in” substitute “fall within”;
- (ii) omit the words from “or any machinery” to the end;

(b) for paragraph (2A) substitute—

“(2A) Subject to paragraphs (2B), (2C) and (2E), the fees payable by the importer of a third country consignment in respect of liability to a physical check and identity check that may be carried out on the consignment (whether or not any such check is carried out) are, where a consignment includes plants, plant products or other objects of a description specified in column 1 of the table, which originate in a country specified in the corresponding entry in column 2 of the table—

- (a) the fee specified in column 3 of the table in respect of a physical check of plants, plant products or other objects of each such description included in the consignment; and
- (b) the fee specified in column 4 of the table in respect of an identity check of plants, plant products or other objects of each such description included in the consignment.”;

(c) for paragraph (2B) substitute—

“(2B) The fees specified under paragraph (2A) in respect of liability to a physical check and identity check of cut flowers, fruit, vegetables or leaves are payable in respect of a single lot of the kind in question.”;

(d) for paragraph (2C) substitute—

“(2C) Where a consignment includes two or more plants, plant products or other objects falling within a single category specified in column 1 of the table, the fee payable under paragraph (2A) in respect of liability to a physical check or identity check of the plants,

(1) O.S. 2018/1179 (Cy. 238), a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/1378 (Cy. 244), O.S. 2020/44 (Cy. 5), O.S. 2020/1628 (Cy. 342), O.S. 2021/713 (Cy. 181) ac O.S. 2022/149 (Cy. 47).

(1) S.I. 2018/1179 (W. 238), amended by S.I. 2019/1378 (W. 244), S.I. 2020/44 (W. 5), S.I. 2020/1628 (W. 342), S.I. 2021/713 (W. 181) and S.I. 2022/149 (W. 47).

planhigion neu'r gwrthrychau eraill o fewn y categori o dan sylw yw—

(a) i'r graddau y mae'r llwyth yn cynnwys dau neu ragor o lotiau naill ai o flodau wedi eu torri neu o ffrwythau, llyisiau neu ddail—

(i) y ffi sy'n daladwy mewn cysylltiad ag un lot o flodau wedi eu torri neu o ffrwythau, llyisiau neu ddail (yn ôl y digwydd); neu

(ii) pan bennir symiau gwahanol mewn perthynas â'r lotiau o dan sylw, ffi sy'n cyfateb i'r ffi uchaf mewn perthynas ag atebolrwydd am wiriad ffisegol neu wiriad adnabod (yn ôl y digwydd);

(b) i'r graddau y mae'r llwyth yn cynnwys unrhyw blanhigion eraill, unrhyw gynhyrchion planhigion neu unrhyw wrthrychau eraill sy'n tarddu o'r un wlad—

(i) y ffi sy'n daladwy mewn cysylltiad ag un planhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall o unrhyw un o'r disgrifiadau o dan sylw; neu

(ii) pan bennir symiau gwahanol mewn perthynas â'r planhigion, y cynhyrchion planhigion neu'r gwrthrychau eraill hynny, ffi sy'n cyfateb i'r ffi uchaf mewn perthynas ag atebolrwydd i wiriad ffisegol neu wiriad adnabod (yn ôl y digwydd).”;

(e) hepgorer paragraff (2D);

(f) yn lle paragraff (2E) rhodder—

“(2E) Nid yw ffi yn daladwy o dan baragraff (2A) mewn cysylltiad ag unrhyw lwyth sy'n tarddu o un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir a fewnforir cyn diwedd y cyfnod graddoli trosiannol, mewn cysylltiad ag unrhyw blanhigion neu gynhyrchion planhigion a bennir yn Atodlen 2A a geir yn y llwyth hwnnw.”

(g) ar ôl paragraff (2E), mewnosoder—

“(2F) Pan fo arolygydd yn amau bod llwyth o drydedd wlad wedi ei heintio â phla planhigion a reolir ac yn cymryd sampl o'r llwyth er mwyn cynnal profion labordy i gadarnhau pa un a yw'r pla yn bresennol, y ffi sy'n daladwy gan fewnforiwr y llwyth o drydedd wlad yw £147.35 ar gyfer pob sampl a brofir.

plant products or other objects within the category in question is—

(a) so far as the consignment includes two or more lots either of cut flowers or of fruit, vegetables or leaves—

(i) the fee payable in respect of a single lot of cut flowers or of fruit, vegetables or leaves (as the case may be); or

(ii) where different amounts are specified in relation to the lots in question, a fee equal to the highest of the fees relating to liability to a physical check or identity check (as the case may be);

(b) so far as the consignment includes any other plants, plant products or other objects which originate in the same country—

(i) the fee payable in respect of a single plant, plant product or other object of any of the descriptions in question; or

(ii) where different amounts are specified in relation to those plants, plant products or other objects, a fee equal to the highest of the fees relating to liability to a physical check or identity check (as the case may be).”;

(e) omit paragraph (2D);

(f) for paragraph (2E) substitute—

“(2E) No fee is payable under paragraph (2A) in respect of any consignment originating in an EU Member State, Liechtenstein or Switzerland that is imported before the end of the transitional staging period, in respect of any plants or plant products specified in Schedule 2A that are contained in the consignment.”

(g) after paragraph (2E), insert—

“(2F) Where an inspector suspects that a third country consignment is infected with a controlled plant pest and takes a sample from the consignment for laboratory testing to confirm whether the pest is present, the fee payable by the importer of the third country consignment is £147.35 for each sample tested.

(2G) At ddibenion y rheoliad hwn, y tabl ac Atodlen 2A—

- (a) ystyr “dail” yw llysiau, perlysiâu a sbeisys, i’r graddau y maent ar ffurf dail gyda neu heb goesynnau neu goesau ynghlwm, a dail rhydd unrhyw blanhigion eraill;
- (b) ystyr “llysiau”, ac eithrio yn is-baragraff (a), yw llysiau ac eithrio i’r graddau y maent ar ffurf dail.”;
- (h) yn lle paragraff (3) rhodder—
“(3) Yn y rheoliad hwn—
 - (a) ystyr “categori”, mewn perthynas ag unrhyw beth a bennir yng ngholofn 1 o’r tabl yn Atodlen 1, yw grŵp a restrir yng ngholofn 1 mewn print trwm;
 - (b) ystyr “pla planhigion a reolir” yw pla cwarantyn Prydain Fawr, pla cwarantyn Prydain Fawr dros dro, pla cwarantyn ardal sy’n rhydd rhag plâu neu bla nad yw’n bla cwarantyn Prydain Fawr a reoleiddir⁽¹⁾;
 - (c) ystyr “disgrifiad”, mewn perthynas ag unrhyw beth a bennir yng ngholofn 1 o’r tabl yn Atodlen 1, yw’r disgrifiad penodol y pennir ffi mewn cysylltiad ag ef;
 - (d) ystyr “lot” yw un uned neu ragor o un nwydd, y gellir ei adnabod drwy gydrywiaeth ei gyfansoddiad a’i darddiad, sy’n ffurfio rhan o lwyth;
 - (e) ystyr “y tabl” yw’r tabl yn Atodlen 1;
 - (f) ystyr “llwyth o drydedd wlad” yw llwyth a gyflwynir i Gymru o drydedd wlad;
 - (g) mae i “y cyfnod graddoli trosiannol” yr ystyr a roddir i “the transitional staging period” yn Atodiad 6 i Reoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles

(2G) For the purposes of this regulation, the table and Schedule 2A—

- (a) “leaves” means vegetables, herbs and spices, so far as they take the form of leaves with or without stems or stalks attached, and the loose leaves of any other plants;
- (b) “vegetables”, except in sub-paragraph (a), means vegetables other than in so far as they take the form of leaves.”;
- (h) for paragraph (3) substitute—
“(3) In this regulation—
 - (a) “category”, in relation to anything specified in column 1 of the table in Schedule 1, means a grouping which is listed in column 1 in bold typeface;
 - (b) “controlled plant pest” means a GB quarantine pest, a provisional GB quarantine pest, a PFA quarantine pest or a GB regulated non-quarantine pest⁽¹⁾;
 - (c) “description”, in relation to anything specified in column 1 of the table in Schedule 1, means the specific description in respect of which a fee is specified;
 - (d) “lot” means one or more units of a single commodity, identifiable by its homogeneity of composition and origin, which form part of a consignment;
 - (e) “the table” means the table in Schedule 1;
 - (f) “third country consignment” means a consignment that is introduced into Wales from a third country;
 - (g) “the transitional staging period” has the meaning given in Annex 6 to Regulation (EU) 2017/625 of the European Parliament and of the Council on official controls and other official activities performed to ensure the application of food and feed law, rules on animal health and welfare,

(1) Diffinnir “GB quarantine pest”, “GB regulated non-quarantine pest”, “PFA quarantine pest” a “provisional GB quarantine pest” yn Erthygl 2(32), (33), (37) a (40), yn y drefn honno, o EUR 2016/2031 (a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/1482). Mae’r diffiniadau hynny yn gymwys at ddibenion O.S. 2018/1179 (Cy. 238) yn rhinwedd rheoliad 2(2) o’r O.S. hwnnw.

(1) “GB quarantine pest”, “GB regulated non-quarantine pest”, “PFA quarantine pest” and “provisional GB quarantine pest” are defined in Article 2(32), (33), (37) and (40), respectively, of EUR 2016/2031 (amended by S.I. 2020/1482). Those definitions apply for the purposes of S.I. 2018/1179 (W. 238) by virtue of regulation 2(2) of that S.I.

anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion(1).”.

(3) Yn rheoliad 5A (gwasanaethau tystysgrifau allforio a gwasanaethau cyn-allforio: ffioedd), ym mharagraff (4B), yn lle “2022” rhodder “2023”.

(4) Yn lle Atodlen 1, rhodder yr Atodlen 1 a geir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn.

(5) Hepgorer Atodlenni 1A a 2.

(6) Yn lle Atodlen 2A, rhodder yr Atodlen 2A a geir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

plant health and plant protection products(1).”.

(3) In regulation 5A (export certification services and pre-export services: fees), in paragraph (4B), for “2022” substitute “2023”.

(4) For Schedule 1, substitute the Schedule 1 contained in Schedule 1 to these Regulations.

(5) Omit Schedules 1A and 2.

(6) For Schedule 2A, substitute the Schedule 2A contained in Schedule 2 to these Regulations.

Julie James

Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion
Cymru
13 Gorffennaf 2022

Minister for Climate Change, one of the Welsh
Ministers
13 July 2022

(1) EUR 2017/625. Mewnosodwyd Atodiad 6 gan O.S. 2020/1481 ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2021/429, O.S. 2021/809, O.S. 2021/1096 ac O.S. 2021/1443.

(1) EUR 2017/625. Annex 6 is inserted by S.I. 2020/1481 and amended by S.I. 2021/429, S.I. 2021/809, S.I. 2021/1096 and S.I. 2021/1443.

“ATODLEN 1

Rheoliad 3(2A) a (2C)

Ffioedd arolygu mewnforio

<i>Colofn 1</i> <i>Categori a disgrifiad o blanhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall</i>	<i>Colofn 2</i> <i>Gwlad tarddiad</i>	<i>Colofn 3</i> <i>Ffi: Gwiriad ffisegol (£)</i>	<i>Colofn 4</i> <i>Ffi: Gwiriad adnabod (£)</i>
Bylbiau, cormau, rhisomau, cloron (ac eithrio cloron tatws), winwns, sialóts, garlleg, cennin a llysiau garllegaid eraill, planhigion cwsg, nad ydynt mewn swbstrad			
<i>Pob genera</i> a fwriedir ar gyfer eu plannu, ac eithrio cynhyrchu blodau masnachol, a nas bwriedir ar gyfer defnyddwyr terfynol ⁽¹⁾	Unrhyw drydedd wlad	205.04	5.25
<i>Pob genera</i> a fwriedir ar gyfer eu plannu, ac a fwriedir ar gyfer cynhyrchu blodau masnachol, neu ar gyfer defnyddwyr terfynol ⁽¹⁾	Unrhyw drydedd wlad	20.50	0.52
Toriadau, eginblanhigion, a fwriedir ar gyfer eu plannu, nad ydynt wedi eu pennu neu eu cynnwys mewn lle arall yn y tabl hwn			
<i>Pob genera</i>	Unrhyw drydedd wlad	32.15	1.57
Planhigion prenaidd⁽²⁾ (ac eithrio unrhyw rai a bennir neu a gynhwysir mewn lle arall yn y tabl hwn), a fwriedir ar gyfer eu plannu			
<i>Pob genera</i>	Unrhyw drydedd wlad	32.15	1.57
Planhigion nad ydynt yn brennaidd⁽³⁾ (ac eithrio unrhyw rai a bennir neu a gynhwysir mewn lle arall yn y tabl hwn), a fwriedir ar gyfer eu plannu, ac a fwriedir ar gyfer defnyddwyr terfynol⁽¹⁾			
<i>Pob genera</i>	Unrhyw drydedd wlad	32.15	1.57
Planhigion dan do⁽⁴⁾			
<i>Pob genera</i>	Unrhyw drydedd wlad	32.15	1.57
Planhigion eraill a fwriedir ar gyfer eu plannu, nad ydynt wedi eu pennu neu eu cynnwys mewn lle arall yn y tabl hwn			

<i>Pob genera</i>	Unrhyw drydedd wlad	32.15	1.57
Blodau wedi eu torri			
<i>Dendranthema</i> (DC.) Des Moul. (<i>Chrysanthemum</i> L.)	Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	1.28	0.15
	Colombia neu Ecuador	21.37	2.62
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Colombia, Ecuador, Liechtenstein neu'r Swistir	2.13	0.26
<i>Eryngium</i> Tournier ex Linnaeus.	Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	1.28	0.15
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	4.27	0.52
<i>Lisianthus</i> L.	Unrhyw drydedd wlad	4.27	0.52
<i>Rosa</i> L.	Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Colombia, Ecuador, Liechtenstein neu'r Swistir	1.28	0.15
	Canada, India, Mecsico neu UDA	21.37	2.62
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Canada, Colombia, Ecuador, India, Liechtenstein, Mecsico, y Swistir neu UDA	2.13	0.26
<i>Solidago</i> L.	Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	1.28	0.15
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	4.27	0.52
<i>Genera eraill nad ydynt wedi eu pennu neu eu cynnwys mewn lle arall</i>	Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE,	1.28	0.15

<i>yn y tabl hwn</i>	Liechtenstein neu'r Swistir		
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	2.13	0.26
Canghennau gyda deiliant, rhannau o goed conwydd (ac eithrio rhisgl neu goed Nadolig wedi eu torri)			
<i>Pob genera</i>	Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	1.01	0.15
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	1.69	0.26
Ffrwythau, llysiau, dail			
<i>Momordica L.</i>	Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	1.59	0.15
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	26.55	2.62
<i>Ocimum L.</i>	Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	2.15	0.15
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	35.84	2.62
<i>Solanaceae Juss. (ac eithrio <i>Solanum tuberosum</i> L.)</i>	Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	1.59	0.15
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	26.55	2.62
<i>Solanum melongena L.</i>	Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r	1.59	0.15

	Swistir		
	Twrci	15.93	1.57
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein, y Swistir neu Dwrci	2.65	0.26
<i>Genera neu rywogaethau eraill o ffrwythau neu lysiau nad ydynt wedi eu pennu neu eu cynnwys mewn lle arall yn y tabl hwn</i>	Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	1.59	0.15
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	2.65	0.26
<i>Dail eraill nad ydynt wedi eu pennu neu eu cynnwys mewn lle arall yn y tabl hwn</i>	Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	2.15	0.15
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	3.58	0.26
Hadau (ar gyfer eu hau), meithriniad meinwe			
<i>Pob genera, ar gyfer treialon neu brofi</i>	Unrhyw drydedd wlad	12.81	0.52
<i>Brassicaceae</i> (ac eithrio ar gyfer treialon neu brofi)	Yr Ariannin, Awstralia, Bolivia, Brasil, Chile, Seland Newydd neu Uruguay	128.13	5.25
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio'r Ariannin, Awstralia, Bolivia, Brasil, Chile, Seland Newydd neu Uruguay	6.40	0.26
<i>Capsicum</i> spp. L. (ac eithrio ar gyfer treialon neu brofi)	Unrhyw drydedd wlad	128.13	5.25
<i>Poaceae</i> (ac eithrio ar gyfer treialon neu brofi)	Yr Ariannin, Awstralia, Bolivia, Brasil, Chile, Seland Newydd neu Uruguay	128.13	5.25
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio'r Ariannin, Awstralia, Bolivia, Brasil, Chile, Seland	6.40	0.26

	Newydd neu Uruguay		
<i>Secale</i> L. (ac eithrio ar gyfer treialon neu brofi)	Affganistan, India, Iran, Irac, Mecsico, Nepal, Pacistan, De Affrica neu UDA	128.13	5.25
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio Affganistan, India, Iran, Irac, Mecsico, Nepal, Pacistan, De Affrica neu UDA	6.40	0.26
<i>Solanum lycopersicum</i> L. (ac eithrio ar gyfer treialon neu brofi)	Unrhyw drydedd wlad	128.13	5.25
<i>Solanum tuberosum</i> L. (Gwir had) (ac eithrio ar gyfer treialon neu brofi)	Unrhyw drydedd wlad	128.13	5.25
<i>Trifolium</i> spp. (ac eithrio ar gyfer treialon neu brofi)	Yr Ariannin, Awstralia, Bolivia, Brasil, Chile, Seland Newydd neu Uruguay	128.13	5.25
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio'r Ariannin, Awstralia, Bolivia, Brasil, Chile, Seland Newydd neu Uruguay	6.40	0.26
<i>Triticum</i> L. (ac eithrio ar gyfer treialon neu brofi)	Affganistan, India, Iran, Irac, Mecsico, Nepal, Pacistan, De Affrica neu UDA	128.13	5.25
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio Affganistan, India, Iran, Irac, Mecsico, Nepal, Pacistan, De Affrica neu UDA	6.40	0.26
X <i>Triticosecale</i> Wittm. ex A. Camus (ac eithrio ar gyfer treialon neu brofi)	Affganistan, India, Iran, Irac, Mecsico, Nepal, Pacistan, De Affrica neu UDA	128.13	5.25
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio Affganistan, India, Iran, Irac, Mecsico, Nepal, Pacistan, De Affrica neu UDA	6.40	0.26
<i>Genera neu rywogaethau eraill nad ydynt wedi eu pennu neu eu cynnwys mewn lle arall yn y tabl hwn</i>	Unrhyw drydedd wlad	6.40	0.26
Grawn (ac eithrio hadau ar gyfer eu hau)			
<i>Secale</i> L.	Affganistan, India, Iran, Irac, Mecsico, Nepal, Pacistan, De	142.98	5.25

	Affrica neu UDA		
<i>Triticum L.</i>	Affganistan, India, Iran, Irac, Meccsico, Nepal, Pacistan, De Affrica neu UDA	142.98	5.25
X <i>Triticosecale</i> Wittm. ex A. Camus	Affganistan, India, Iran, Irac, Meccsico, Nepal, Pacistan, De Affrica neu UDA	142.98	5.25
Cloron tatws			
<i>Solanum tuberosum L.</i> (tatws hadyd)	Unrhyw drydedd wlad	156.69	5.25
<i>Solanum tuberosum L.</i> (tatws bwyta)	Yr Aifft, Gwlad Pwyl, Portiwgal neu Rwmania	78.34	2.62
	Sbaen	156.69	5.25
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio'r Aifft, Gwlad Pwyl, Portiwgal, Rwmania neu Sbaen	4.70	0.15
Coed Nadolig wedi eu torri (llai na 3 metr o uchder)			
<i>Pob genera</i>	Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	3.58	0.15
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	5.98	0.26
Peiriannau neu gerbydau sydd wedi eu gweithredu at ddibenion amaethyddol neu goedwigaeth	Unrhyw drydedd wlad	5.98	0.26

(1) Ystyr "a fwriedir ar gyfer defnyddwyr terfynol" yw y'i bwriedir, drwy dystiolaeth o'r pecyn, y label neu drwy dulliau eraill, i'w gyflenwi yn uniongyrchol i ddefnyddwyr terfynol.

(2) Ystyr "planhigion prenaidd" yw planhigion sydd â choesyn prenaidd neu rhannol brennaidd, ac mae'n cynnwys pob coeden, deunydd lluosogi coedwigaeth (ac eithrio had), llwyni a phalmwydd, a'r gwinwydd a'r perlysiâu lluosflwydd hynny sydd â choesynnau prenaidd neu rannol brennaidd; ac at y diben hwn mae "perlysiâu lluosflwydd" yn golygu perlysiâu y mae eu hoedran cyfartalog yn fwy na dwy flynedd.

(3) Ystyr "planhigion nad ydynt yn brennaidd" yw planhigion nad ydynt yn blanhigion prenaidd.

(4) Ystyr "planhigion dan do" yw planhigion yr ymddengys o'u pecyn, eu label neu drwy dulliau eraill y'u bwriedir i'w cyflenwi'n uniongyrchol i ddefnyddwyr terfynol i'w defnyddio o dan do neu i'w defnyddio mewn acwaria.

SCHEDULE 1

Regulation 3(4)

“SCHEDULE 1 Regulation 3(2A) and (2C)

Import inspection fees

<i>Column 1</i> <i>Category and description of plant, plant product or other object</i>	<i>Column 2</i> <i>Country of origin</i>	<i>Column 3</i> <i>Fee: Physical check (£)</i>	<i>Column 4</i> <i>Fee: Identity check (£)</i>
Bulbs, corms, rhizomes, tubers (other than tubers of potatoes), onions, shallots, garlic, leeks and other alliaceous vegetables, dormant, not in substrate			
<i>All genera</i> intended for planting, other than commercial flower production, and not intended for final users ⁽¹⁾	Any third country	205.04	5.25
<i>All genera</i> intended for planting, and intended for commercial flower production, or for final users ⁽¹⁾	Any third country	20.50	0.52
Cuttings, seedlings, intended for planting, not specified or included elsewhere in this table			
<i>All genera</i>	Any third country	32.15	1.57
Woody plants⁽²⁾ (other than any specified or included elsewhere in this table), intended for planting			
<i>All genera</i>	Any third country	32.15	1.57
Non-woody plants⁽³⁾ (other than any specified or included elsewhere in this table), intended for planting, and intended for final users⁽¹⁾			
<i>All genera</i>	Any third country	32.15	1.57
Indoor plants⁽⁴⁾			
<i>All genera</i>	Any third country	32.15	1.57
Other plants intended for planting, not specified or included elsewhere in this table			
<i>All genera</i>	Any third country	32.15	1.57
Cut flowers			
<i>Dendranthema</i> (DC.) Des Moul. (<i>Chrysanthemum</i> L.)	Any EU Member State, Liechtenstein or Switzerland	1.28	0.15
	Columbia or Ecuador	21.37	2.62
	Any third country other than an EU Member State, Columbia, Ecuador, Liechtenstein or	2.13	0.26

	Switzerland		
<i>Eryngium</i> Tournier ex Linnaeus.	Any EU Member State, Liechtenstein or Switzerland	1.28	0.15
	Any third country other than an EU Member State, Liechtenstein or Switzerland	4.27	0.52
<i>Lisianthus</i> L.	Any third country	4.27	0.52
<i>Rosa</i> L.	Any EU Member State, Colombia, Ecuador, Liechtenstein or Switzerland	1.28	0.15
	Canada, India, Mexico or the USA	21.37	2.62
	Any third country other than an EU Member State, Canada, Colombia, Ecuador, India, Liechtenstein, Mexico, Switzerland or the USA	2.13	0.26
<i>Solidago</i> L.	Any EU Member State, Liechtenstein or Switzerland	1.28	0.15
	Any third country other than an EU Member State, Liechtenstein or Switzerland	4.27	0.52
<i>Other genera not specified or included elsewhere in this table</i>	Any EU Member State, Liechtenstein or Switzerland	1.28	0.15
	Any third country other than an EU Member State, Liechtenstein or Switzerland	2.13	0.26
Branches with foliage, parts of Conifers (other than bark or cut Christmas trees)			
<i>All genera</i>	Any EU Member State, Liechtenstein or Switzerland	1.01	0.15
	Any third country other than an EU Member State, Liechtenstein or Switzerland	1.69	0.26
Fruit, vegetables, leaves			
<i>Momordica</i> L.	Any EU Member State, Liechtenstein	1.59	0.15

	or Switzerland		
	Any third country other than an EU Member State, Liechtenstein or Switzerland	26.55	2.62
<i>Ocimum</i> L.	Any EU Member State, Liechtenstein or Switzerland	2.15	0.15
	Any third country other than an EU Member State, Liechtenstein or Switzerland	35.84	2.62
<i>Solanaceae</i> Juss. (other than <i>Solanum tuberosum</i> L.)	Any EU Member State, Liechtenstein or Switzerland	1.59	0.15
	Any third country other than an EU Member State, Liechtenstein or Switzerland	26.55	2.62
<i>Solanum melongena</i> L.	Any EU Member State, Liechtenstein or Switzerland	1.59	0.15
	Turkey	15.93	1.57
	Any third country other than an EU Member State, Liechtenstein, Switzerland or Turkey	2.65	0.26
<i>Other genera or species of fruit or vegetables not specified or included elsewhere in this table</i>	Any EU Member State, Liechtenstein or Switzerland	1.59	0.15
	Any third country other than an EU Member State, Liechtenstein or Switzerland	2.65	0.26
<i>Other leaves not specified or included elsewhere in this table</i>	Any EU Member State, Liechtenstein or Switzerland	2.15	0.15
	Any third country other than an EU Member State, Liechtenstein or Switzerland	3.58	0.26
Seeds (for sowing), tissue cultures			
<i>All genera, for trials or testing</i>	Any third country	12.81	0.52
<i>Brassicaceae</i> (other than for trials or testing)	Argentina, Australia, Bolivia, Brazil, Chile, New Zealand or Uruguay	128.13	5.25
	Any third country	6.40	0.26

	other than Argentina, Australia, Bolivia, Brazil, Chile, New Zealand or Uruguay		
<i>Capsicum</i> spp. L. (other than for trials or testing)	Any third country	128.13	5.25
<i>Poaceae</i> (other than for trials or testing)	Argentina, Australia, Bolivia, Brazil, Chile, New Zealand or Uruguay	128.13	5.25
	Any third country other than Argentina, Australia, Bolivia, Brazil, Chile, New Zealand or Uruguay	6.40	0.26
<i>Secale</i> L. (other than for trials or testing)	Afghanistan, India, Iran, Iraq, Mexico, Nepal, Pakistan, South Africa or the USA	128.13	5.25
	Any third country other than Afghanistan, India, Iran, Iraq, Mexico, Nepal, Pakistan, South Africa or the USA	6.40	0.26
<i>Solanum lycopersicum</i> L. (other than for trials or testing)	Any third country	128.13	5.25
<i>Solanum tuberosum</i> L. (True seed) (other than for trials or testing)	Any third country	128.13	5.25
<i>Trifolium</i> spp. (other than for trials or testing)	Argentina, Australia, Bolivia, Brazil, Chile, New Zealand or Uruguay	128.13	5.25
	Any third country other than Argentina, Australia, Bolivia, Brazil, Chile, New Zealand or Uruguay	6.40	0.26
<i>Triticum</i> L. (other than for trials or testing)	Afghanistan, India, Iran, Iraq, Mexico, Nepal, Pakistan, South Africa or the USA	128.13	5.25
	Any third country other than Afghanistan, India, Iran, Iraq, Mexico, Nepal, Pakistan, South Africa or the USA	6.40	0.26
X <i>Triticosecale</i> Wittm. ex A. Camus	Afghanistan, India,	128.13	5.25

(other than for trials or testing)	Iran, Iraq, Mexico, Nepal, Pakistan, South Africa or the USA		
	Any third country other than Afghanistan, India, Iran, Iraq, Mexico, Nepal, Pakistan, South Africa or the USA	6.40	0.26
<i>Other genera or species not specified or included elsewhere in this table</i>	Any third country	6.40	0.26
Grain (other than seeds for sowing)			
<i>Secale L.</i>	Afghanistan, India, Iran, Iraq, Mexico, Nepal, Pakistan, South Africa or the USA	142.98	5.25
<i>Triticum L.</i>	Afghanistan, India, Iran, Iraq, Mexico, Nepal, Pakistan, South Africa or the USA	142.98	5.25
<i>X Triticosecale Wittm. ex A. Camus</i>	Afghanistan, India, Iran, Iraq, Mexico, Nepal, Pakistan, South Africa or the USA	142.98	5.25
Tubers of potatoes			
<i>Solanum tuberosum L.</i> (seed potatoes)	Any third country	156.69	5.25
<i>Solanum tuberosum L.</i> (ware potatoes)	Egypt, Poland, Portugal or Romania	78.34	2.62
	Spain	156.69	5.25
	Any third country other than Egypt, Poland, Portugal, Romania or Spain	4.70	0.15
Cut Christmas trees (less than 3 metres in height)			
<i>All genera</i>	Any EU Member State, Liechtenstein or Switzerland	3.58	0.15
	Any third country other than an EU Member State, Liechtenstein or Switzerland	5.98	0.26
Machinery or vehicles which have been operated for agricultural or forestry purposes	Any third country	5.98	0.26

⁽¹⁾ "Intended for final users" means intended, by evidence from the packaging, labelling or by other means, for direct supply to final users.

(2) “Woody plants” means plants which have a woody or partly woody stem, and includes all trees, forest reproductive material (other than seed), shrubs and palms, and those vines and perennial herbs with woody or partly woody stems; and for this purpose “perennial herbs” means herbs for which the average life exceeds two years.

(3) “Non-woody plants” means plants which are not woody plants.

(4) “Indoor plants” means plants which appear from their packaging, labelling or by other means to be intended for direct supply to final consumers for indoor use or use in aquaria.”

ATODLEN 2 Rheoliad 3(6)

“ATODLEN 2A Rheoliad 3(2E)

Rhestr o blanhigion a chynhyrchion planhigion sy'n tarddu o un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir sy'n ddarostyngedig i ffioedd ar gyfer gwiriadau ffisegol a gwiriadau adnabod o ddiwedd y cyfnod graddoli trosiannol

1. Canghennau gyda deiliant, rhannau o goed conwydd ac eithrio rhisgl a choed Nadolig wedi eu torri.

2. Coed Nadolig wedi eu torri.

3. Blodau wedi eu torri.

4. Ffrwythau.

5. Grawn, ac eithrio hadau ar gyfer eu hau.

6. Dail.

7. Hadau ac eithrio—

(a) hadau—

(i) *Allium cepa* L.,

(ii) *Allium porrum* L.,

(iii) *Castanea* Mill.,

(iv) *Capsicum* spp. L.,

(v) *Helianthus annuus* L.,

(vi) *Medicago sativa* L.,

(vii) *Phaseolus cocineus*.,

(viii) *Phaseolus vulgaris* L.,

(ix) *Solanum lycopersicum* L.,

(x) *Solanum tuberosum* L. (Hadau tatws gwirioneddol).

(b) hadau llysiâu *Pisum sativum* L. a *Vicia faba* L.

(c) hadau planhigion olew a ffibr—

(i) *Brassica napus* L.,

(ii) *Brassica rapa* L.,

(iii) *Sinapis alba* L.,

(iv) *Glycine max* (L.) Merrill,

(v) *Linum usitatissimum* L.

8. Llysiâu.”

SCHEDULE 2 Regulation 3(6)

“SCHEDULE 2A Regulation 3(2E)

List of plants and plant products originating in an EU Member State, Liechtenstein or Switzerland subject to fees for physical checks and identity checks from the end of the transitional staging period

1. Branches with foliage, parts of Conifers other than bark or cut Christmas trees.

2. Cut Christmas trees.

3. Cut flowers.

4. Fruit.

5. Grain, other than seeds for sowing.

6. Leaves.

7. Seeds other than—

(a) seeds of—

(i) *Allium cepa* L.,

(ii) *Allium porrum* L.,

(iii) *Castanea* Mill.,

(iv) *Capsicum* spp. L.,

(v) *Helianthus annuus* L.,

(vi) *Medicago sativa* L.,

(vii) *Phaseolus cocineus*.,

(viii) *Phaseolus vulgaris* L.,

(ix) *Solanum lycopersicum* L.,

(x) *Solanum tuberosum* L. (True potato seed).

(b) Vegetable seeds of *Pisum sativum* L. and *Vicia faba* L.

(c) Seeds of oil and fibre plants of—

(i) *Brassica napus* L.,

(ii) *Brassica rapa* L.,

(iii) *Sinapis alba* L.,

(iv) *Glycine max* (L.) Merrill,

(v) *Linum usitatissimum* L.

8. Vegetables.”

©[©] Hawlfraint y Goron 2022

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2022

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£6.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2022/804>

ISBN 978-0-348-39342-2



9 780348 393422